Hawdd ei ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

National Centre for Social Research

# Model cymdeithasol o anabledd: adroddiad interim cam darganfod



Mae hon yn ddogfen hawdd ei deall gan Lywodraeth Cymru

Gorffennaf 2025

# Cynnwys

Y prosiect hwn 3

Y model cymdeithasol o anabledd 4

Yr adroddiad hwn 5

Beth wnaethon ni 7

Beth ddysgon ni gan ddefnyddwyr data 11

Beth ddysgon ni o arolygon o wahanol wledydd 13

Beth ddysgon ni gan bobl anabl 14

Beth ddysgon ni 18

Rhagor o wybodaeth 20

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52659, ISBN digidol 978-1-80633-230-4
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Y prosiect hwn



Mae Llywodraeth Cymru eisiau newid y ffordd rydyn ni'n casglu gwybodaeth am bobl anabl.



Rydyn ni fel arfer yn holi pobl am fod yn anabl drwy ddefnyddio cwestiynau mewn arolygon. Mae'r cwestiynau hyn wedi cael eu defnyddio ers amser maith ac mae angen eu diweddaru.




Mae hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd i'n helpu i ymateb i anghenion pobl anabl.



Dydy ein hen gwestiynau ddim yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd. Mae hyn yn golygu bod angen i ni greu a phrofi cwestiynau arolwg newydd sy'n gwneud hynny.

National Centre for Social Research

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol ar y prosiect hwn.

# Y model cymdeithasol o anabledd



Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn ffordd o feddwl a siarad am bobl anabl.



Cafodd y model ei wneud gan bobl anabl ac mae'n dangos i'r byd sut i'w cynnwys.

Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn dweud nad yw person yn anabl oherwydd ei amhariad neu gyflwr iechyd.



Yn hytrach, mae'n cael ei anablu gan rwystrau sy'n ei gwneud hi'n anoddach gwneud pethau.

Yr enw byr arno yw'r '**model cymdeithasol**'.

# Yr adroddiad hwn

Roedden ni eisiau darganfod:



- oes yna gwestiynau yn barod sy'n gweithio i bobl anabl a phobl sy'n defnyddio data


- beth oedd pobl yn ei feddwl am gael cwestiynau newydd i gasglu gwybodaeth am bobl anabl



- allwn ni wneud cwestiynau newydd sy'n defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd

- sut gallwn ni wneud y cwestiynau hynny'n well i bobl anabl eu hateb

- sut i wneud yr wybodaeth rydyn ni’n ei chael o’r cwestiynau hynny yn well i bobl sy’n ei defnyddio fel rhan o’u swydd.




Mae’r adroddiad hwn yn sôn am yr hyn wnaethon ni, a’r hyn wnaethon ni ei ddysgu.

# Beth wnaethon ni




Fe wnaethon ni ddysgu am y mathau o gwestiynau sy'n cael eu gofyn i bobl anabl mewn 3 ffordd wahanol.

Yn gyntaf, fe wnaethon ni gynnal 3 gweithdy gyda 36 o **ddefnyddwyr data**.



Cyfarfod sy'n cynnwys llawer o wahanol bobl i siarad am eu syniadau a'u barn ar bwnc yw gweithdy.

Pobl sy'n defnyddio gwybodaeth am bobl anabl fel rhan o'u swyddi yw defnyddwyr data. Fe allen nhw:



- weithio yn y llywodraeth i wneud polisïau ar gyfer gwella bywydau pobl anabl



- defnyddio rhifau i weld faint o bobl anabl sy’n gwneud pethau gwahanol

- gweithio i fusnes neu elusen sy’n cefnogi pobl anabl.



Fe wnaethon ni ofyn am yr hyn sydd angen iddyn nhw ei wybod am bobl anabl i wneud eu gwaith a sut gallen nhw ddefnyddio cwestiynau newydd.




Nesaf, fe edrychon ni i weld pa gwestiynau mae pobl eraill yn eu defnyddio i gael gwybodaeth am bobl anabl.

Fe edrychon ni ar 20 o arolygon o wahanol wledydd a sefydliadau i:




- ddeall sut mae pobl eraill yn casglu gwybodaeth am bobl anabl
- gweld beth wnaethon nhw'n dda a beth na wnaethon nhw'n dda



- gweld a oedd eu cwestiynau yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd neu a fyddai modd eu newid i'w ddefnyddio.



Yn olaf, fe drefnon ni 2 weithdy arall gyda 40 o bobl anabl o bob cwr o Gymru.

Roedd y gweithdai hyn yn rhai 'cydgynghorol'. Mae hyn yn golygu ein bod wedi cymryd amser ychwanegol i feddwl yn ofalus iawn am bethau o wahanol safbwyntiau.

Yn y gweithdai hyn, fe wnaethon ni ofyn i bawb beth oedden nhw'n ei feddwl am:



- y cwestiynau sydd eisoes yn cael eu defnyddio i gael gwybodaeth am bobl anabl

- cael cwestiynau newydd sy'n defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd

- pa bethau fyddai'n bwysig eu cael mewn set newydd o gwestiynau.

# Beth ddysgon ni gan ddefnyddwyr data

Enw'r cwestiynau arolwg rydyn ni'n eu defnyddio ar hyn o bryd yw'r 'safonau anabledd wedi'u cysoni'.



Roedd defnyddwyr data yn hoffi defnyddio'r rhain oherwydd eu bod wedi aros yr un fath ers amser maith. Mae hyn yn ei gwneud hi'n hawdd cymharu gwybodaeth rhwng gwahanol arolygon a gwahanol amseroedd.



Ond doedden nhw ddim yn hoffi rhai o'r geiriau yn y cwestiynau.

Roedden nhw'n hoffi'r syniad o gael cwestiynau sy'n defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd oherwydd gallan nhw gael gwybodaeth fanylach gan bobl anabl.



Ond fe ddywedon nhw fod angen i ni wneud cyfarwyddiadau newydd a bod yn ofalus nad yw'r cwestiynau newydd yn rhy hir.



Fe ddywedon nhw hefyd y dylen ni gael pobl anabl i'n helpu i wneud y cwestiynau newydd.

# Beth ddysgon ni o arolygon o wahanol wledydd



Fe welson ni nad oedd y rhan fwyaf o arolygon yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd neu nad oedden nhw'n cynnwys cwestiynau am y rhwystrau sy'n ei gwneud hi'n anoddach i bobl anabl wneud pethau.

Roedd y rhan fwyaf o'r arolygon welson ni yn gofyn i bobl am eu 'cyflyrau iechyd hirdymor' a doedden nhw ddim yn defnyddio'r gair 'anabledd'.

Roedd rhai arolygon yn cynnwys geiriau nad ydyn ni'n eu defnyddio yn y DU i siarad am bobl anabl.




Cafodd llawer o'r arolygon eu gwneud ar gyfer cyfweliadau ac efallai na fydden nhw'n gweithio pan fyddai pobl yn llenwi'r arolwg ar eu pennau eu hunain.

Doedd dim llawer o arolygon mewn fformatau hygyrch.

# Beth ddysgon ni gan bobl anabl

Yn gyntaf, fe wnaethon ni ofyn am sut mae pobl yn hoffi siarad am eu hunain mewn arolygon.



Roedd llawer o bobl yn hoffi defnyddio’r model cymdeithasol wrth siarad am eu hunain, gan ddweud wrthym ni fod cael amhariadau yn wahanol i fod yn anabl.

Doedden nhw ddim yn hoffi’r geiriau ‘anabledd’, ‘bod yn anabl’ neu ‘anhwylder’. Roedden nhw’n dweud wrthym ni y gallai defnyddio’r geiriau hyn atal pobl rhag llenwi arolwg.



Dywedodd rhai y gallai’r gair ‘rhwystrau’ fod yn rhy ddryslyd i bawb ei ddeall, a gallai wneud i rai pobl feddwl am rwystrau ffisegol yn unig.




Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi penderfynu bod gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu llenwi arolwg yn bwysicach na gallu cymharu gwybodaeth rhwng gwahanol flynyddoedd.

Nesaf, fe wnaethon ni ofyn beth oedd pobl yn ei feddwl am y cwestiynau rydyn ni eisoes yn eu defnyddio i siarad am fod yn anabl.



Enw'r cwestiynau hyn yw'r 'safonau anabledd wedi'u cysoni' ac maen nhw wedi'u rhannu'n 2 grŵp:


- cwestiynau am 'gyflyrau iechyd'



- a chwestiynau am 'amhariadau'.

I ddechrau, dywedodd pobl wrthym ni fod y cwestiynau hyn yn hawdd eu hateb ond newidiodd rhai pobl eu meddwl ar ôl siarad amdanyn nhw.

Fe ddywedon nhw y gallai’r cwestiynau hyn fod yn anodd i rai pobl eu hateb os yw’r amhariad sydd ganddyn nhw yn newid o ddydd i ddydd neu drwy gymryd meddyginiaeth.



Dryslyd

Mae’r cwestiynau hefyd yn gofyn i bobl benderfynu faint mae’r amhariadau sydd ganddyn nhw yn effeithio arnyn nhw – roedd pobl wedi eu drysu gan hyn.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn hoffi’r cwestiwn am amhariadau yn fwy na’r cwestiynau am ‘gyflyrau iechyd’.




Roedden nhw’n hoffi gallu dewis mwy nag un ateb a chael yr opsiwn i ddewis “Arall”.



Ond fe wnaethon nhw hefyd ddweud bod lle i wella’r cwestiwn amhariadau o hyd.

Yn olaf, fe fuon ni'n trafod cael cwestiynau newydd sy'n defnyddio'r model cymdeithasol i siarad am anabledd.



Roedd y rhan fwyaf o bobl yn hoffi'r syniad o'r cwestiynau newydd hyn ac yn dweud y bydden nhw'n gwneud iddyn nhw deimlo fel bod y llywodraeth yn "poeni" amdanyn nhw.



Roedden nhw hefyd yn meddwl bod cael cwestiynau am amhariadau a rhwystrau yn syniad da.



Ond pan wnaethon ni geisio gwneud cwestiwn newydd, fe ddywedon nhw ei fod yn rhy hir a chymhleth.

# Beth ddysgon ni




Wnaethon ni ddim dod o hyd i unrhyw arolygon a oedd yn diwallu anghenion pawb neu'n defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd yn iawn.

Oherwydd hyn, rydyn ni wedi gwneud 2 awgrym.

**1**

Parhau i ddefnyddio'r cwestiwn am amhariadau ond ei wella trwy ei wneud yn haws i bawb ei ateb.

**2**

Gwneud cwestiwn newydd am y pethau sy'n gwneud bywyd yn anoddach i bobl anabl.

Dylid gwneud a phrofi'r ddau gwestiwn fel bod modd eu defnyddio mewn:




- gwahanol ffyrdd fel ar-lein, ar bapur, neu dros y ffôn




- gwahanol ieithoedd a fersiynau gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a hawdd eu deall.

# Rhagor o wybodaeth




Dyma fersiwn hawdd ei deall o adroddiad Llywodraeth Cymru.

Gallwch ddarllen y fersiwn wreiddiol yma: [www.llyw.cymru/model-cymdeithasol-o-anabledd-adroddiad-interim-y-cam-darganfod](www.llyw.cymru/model-cymdeithasol-o-anabledd-adroddiad-interim-y-cam-darganfod)

I gael rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn, gallwch:



- edrych ar ein gwefan: [www.llyw.cymru/yr-unedau-tystiolaeth-cydraddoldeb-hil-ac-anabledd](www.llyw.cymru/yr-unedau-tystiolaeth-cydraddoldeb-hil-ac-anabledd)




- e-bostio ni: yrunedtystiolaethcydraddoldeb@llyw.cymru